



Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

Trefniadau ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion

Adroddiad Arolygu Cyngor Sir Powys

Awst 2013

Adroddiad am Arolygiad trefniadau Cyngor Sir Powys ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a gynhaliwyd gan AGGCC ym mis Mawrth 2013.

Pwrpas a chefnidir yr arolygiad:

Adolygiad oedd hwn yn dilyn yr arolygiad a gynhaliwyd gan AGGCC ym mis Hydref 2011. Canfu'r arolygiad hwnnw fod llawer o agweddau ar y gwasanaeth angen eu gwella'n sylweddol. Gofynnai un argymhelliad allweddol i'r awdurdod ddatblygu cynllun gweithredu, fyddai'n mynd i'r afael â'r meysydd oedd angen eu gwella, gan roi amcanion, canlyniadau a chyfnodau amser clir. Bu AGGCC yn monitro cynnydd y cyngor wrth iddo wneud newidiadau, a daeth hynny i'w derfyn yn yr arolygiad a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2013. Diben yr arolygiad hwn oedd asesu a gafodd y gwelliannau angenrheidiol eu gwneud ac i ba raddau y bu'r bwrdd gwella gwasanaethau i oedolion yn gymorth i gyflawni hyn.

Er mwyn cael golwg eang ar effaith y cynnydd yng ngwasanaethau oedolion, archwiliodd yr arolygiad y canlynol:

- Profiadau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr
- Ansawdd asesu, rheoli gofal ac adolygu
- Ystod ac ansawdd y gwasanaethau
- Cymorth i'r gweithlu a datblygiad y gweithlu
- Effaith partneriaethau o ran cyflawni gwasanaethau effeithiol ac o ran gweledigaeth strategol
- Arweinyddiaeth ar bob lefel

Y dull a'r wybodaeth a ystyriwyd:

Cynhaliodd AGGCC archwiliad strwythuredig o ffeiliau achos, lle yr archwiliwyd amgylchiadau sampl o 17 defnyddiwr gwasanaeth a'u gofalwyr ar draws y sir drwy eu ffeiliau achos. Casglodd yr arolygwyr wybodaeth o'r system gofnodion electronig, cipluniau a roddwyd gan y rheolwyr gofal, a chopïau papur o'r cynllun gofal a'r asesiad. Fe gyfarfuom hefyd â rhai o'r defnyddwyr gwasanaeth a'r gofalwyr yn ystod y gwaith maes.

Treuliodd yr arolygwyr bedwar diwrnod pellach o fewn yr awdurdod yn cyfarfod â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, y staff sy'n eu cefnogi, cynrychiolwyr asiantaethau sy'n bartneriaid, aelodau etholedig/Cynghorwyr arweiniol ac uwch swyddogion o fewn yr adran. Buom yn arsylwi diwrnod herio blynyddol fframwaith adrodd y Cyngor lle y trafodwyd adroddiad blynyddol drafft cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer 2012/13.

Tynnodd yr arolygiad hefyd ar wybodaeth berthnasol a roddwyd gan y cyngor gan gynnwys:

- Cofnodion misol diweddaraf bwrdd rhaglen gwella gwasanaethau i oedolion, sy'n rhoi manylion y cynnydd yn y deg maes gwella sy'n flaenoriaeth
- Llyfryn hyfforddiant
- Cynlluniau gofal perthnasol
- Yr achos busnes dros swyddogaethau a llywodraeth ar y cyd gyda Cheredigion
- Strategaeth ddrafft comisiynu ar y cyd ar gyfer pobl hŷn
- Strategaeth gomisiynu ddrafft ar gyfer gwasanaethau i oedolion ag anableddau dysgu

Crynodeb o'r casgliadau allweddol:

- Bu gwelliant ar y cyfan ers arolygiad 2011. Fodd bynnag, mae'r cynnydd hwn yn fregus a rhaid ei gadarnhau a'i gynnal er mwyn i'r gwelliannau gael ymsefydlogi.
- Rydym wedi gweld gwelliannau ym mhrofiad defnyddwyr y gwasanaeth ac yn y gwasanaethau a ddarperir, gan gynnwys cofnodi'r asesiadau a gynhelir yn well. Er hynny, mae'r perfformiad, yn erbyn nifer o'r dangosyddion perfformiad lleol a chenedlaethol cysylltiedig, yn syrthio'n is na'r targedau disgwylidig.
- Mae ymrwymiad y rheolwyr a'r staff yn amlwg, ac mae'r canolbwynt bellach yn symud oddi wrth sefydlu prosesau at ymwybyddiaeth gynyddol o'r angen i sicrhau gwell canlyniadau i ddefnyddwyr. Mae staff rheng flaen yn awr yn cydnabod mai eu swyddogaeth hwy yw hyrwyddo annibyniaeth, nid creu dibyniaeth. Bydd angen parhau i ymgysylltu â'r staff a phartneriaid er mwyn cyflawni'r newid angenrheidiol yn y diwylliant.
- Mae'r broses wella gyflym, byrddau gwella gwasanaethau a'r bwrdd gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion wedi darparu tystiolaeth o well arweinyddiaeth a monitro cynnydd. Mae'r mecanweithiau hyn ynghyd â'r cynllun busnes, sy'n canolbwyntio ar bum blaenoriaeth, wedi gyrru gwelliant yn y gwasanaethau a ddarperir hyd yma, a chynnydd yn hyder y staff.
- Ceir tystiolaeth o ymgysylltu â phartneriaid, ymgynghori a chyfranogi mewn gwella gwasanaethau ym Mhowys.
- Cafwyd cyfnod o sefydlogrwydd gydag arweinyddiaeth glir gan yr uwch swyddogion. Fodd bynnag, penodiadau dros dro fu rhai rheolwyr allweddol. Mae hynny ar fin newid wrth i gamau gael eu cymryd i sicrhau sefydlogrwydd tymor hir.

Mae nifer o heriau'n aros. Y rhain yw:

- Cadarnhau cynnydd a pharhau i gesio gwelliant yn wyneb newidiadau ymhlith arweinwyr ac yn wyneb adnoddau prin.
- Gwella cyfathrebu ynglŷn â newid, gan sicrhau bod yr holl staff a'r partneriaid yn ymwybodol o'r gwaith sy'n cael ei wneud a'r newidiadau sydd eu hangen.
- Cynladwyedd, gan fod rhai meysydd gwasanaeth yn dal yn fregus gyda phroblemau gallu eglur.
- Yr anghysondebau o ran ymarfer a darparu gwasanaethau, a brofir gan bartneriaid ar draws y sir. Disgrifir hyn yn nhermau ansawdd, swm yr adnoddau, mynediad a chyflymdra ymateb.
- Lledaenu datblygiadau ar draws y sir, gan gynnwys y gwasanaeth ailalluogi, y ganolfan gyfathrebu a'r datblygiadau gwasanaeth eraill, heb gefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol glir i'r newidiadau hyn.

- Er bod sylw wedi ei dynnu ato fel blaenoriaeth ar gyfer gwella gan AGGCC yn 2011, ychydig o gynnydd a wnaed i fynd i'r afael â'r diffygion yn y gwasanaethau ar gyfer oedolion iau ag anabledd corfforol. Mae ymgynghoriad gyda'r bobl sydd angen y gwasanaethau hyn wedi cychwyn ond, hyd yma, ni chafwyd cyfeiriad strategol clir.
- Nodwyd mai'r heriau y mae'r adran yn eu hwynebu yw heriau demograffeg, byw yng nghefn gwlad, a'r costau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaeth i bobl yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r anallu i benodi staff uwch, oherwydd effaith y cyfuno posibl gyda Cheredigion, hefyd wedi llesteirio cynnydd.

Argymhellion:

- Dylid mynd ati i ddatblygu'r gwasanaeth ailalluogi ar draws y sir yn llwyddiannus. Bydd cefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol o'r pwys mwyaf.
- Mae angen gwell perfformiad wrth adolygu anghenion unigolion.
- Mae angen cysondeb wrth gynnal asesiad a'i gofnodi o fewn y targed o 28 diwrnod.
- Dylid gwneud rhagor o waith i sicrhau bod y staff yn ymddiddori ac yn cyfranogi yn y rhaglen o wella gwasanaethau a'u datblygu.
- Mae'r cyngor yn ystyried y tîm ailalluogi yn Ystradgynlais yn enghraifft o arfer da. Mae'r cyngor hefyd yn bwriadu lledaenu'r model hwn ar draws y siroedd eraill. Dylid cymryd y pryderon ynghylch gallu a chynladwyedd y model presennol i ystyriaeth cyn gwneud unrhyw benderfyniadau.
- Mae angen sefydlu gwaith i annog pobl i fanteisio ar wasanaeth asesu a chefnogi gofalwyr.
- Dylai'r cyngor barhau i fynd i'r afael â'r lefelau uchel o salwch ymhlith staff yn yr adran, ac adolygu'n weddol fuan y penderfyniad i beidio â llenwi swyddi gweigion.
- Dylai'r cyngor sicrhau bod digon o allu i ddatblygu a gwerthuso strategaethau comisiynu, ac i fonitro gwasanaethau a gomisiynir yn effeithiol. Mae hyn i ddibenion ansawdd a chontractio, er mwyn symud ymlaen gyda gweithredu arweiniad comisiynu Llywodraeth Cymru.
- Dylai'r cyngor, drwy ei drefniadau craffu, roi prawf ar y gwelliannau a wnaed eisoes i weld a ydynt wedi cael effaith gadarnhaol ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau.
- Dylai'r cyngor sicrhau bod y gwaith craffu yn cael ei wneud yn effeithiol gydag arweinydd y portffolio a rheolwyr gwasanaethau i oedolion.
- Bydd yr angen i gefnogi'r cynllun gwella, yn gorfforaethol ac yn wleidyddol, yn hollbwysig er mwyn cynnal y gwellant a gwella'r canlyniadau i bobl Powys.

Y peryglon a nodwyd:

- Arweinyddiaeth – mae arweinyddiaeth gyson yn hollbwysig i drawsffurfio a chynnal y gwasanaethau a ddarperir. Mae ymestyn cytundeb pennaeth dros dro'r gwasanaethau i oedolion hyd fis Medi a hysbysebu'r swydd yn allanol, ynghyd â'r ffaith y bydd y cyfarwyddwr a rennir yn gadael yn fuan, yn peri pryder sylweddol ymhlith y staff. Bydd hyn yn cael effaith ar y broses o reoli'r newid sydd ei angen i gyfarfod â gofynion yr agenda gwella.
- Cysondeb ar draws y tair sir – er bod datblygiadau peilot wedi bod yn ddefnyddiol i weld a yw datblygiadau'n bosibl, heb werthuso ac atgyfnerthu, mae yna berygl y bydd dinasyddion yn profi gwasanaethau gwahanol iawn gan y cyngor, yn dibynnu ar y lle y maent yn byw.
- Gallu a chynladwyedd – wrth weithredu'r model ailalluogi ac wrth ddatblygu a gweithredu'r ganolfan gyfathrebu, ynghyd â chryfhau'r swyddogaethau comisiynu a monitro cytundebau.
- Cefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol – i oruchwyllo, fel sy'n angenrheidiol, y ffordd y caiff datblygiadau eu gweithredu a sicrhau bod y newidiadau hynny yn arwain at well canlyniadau i ddinasyddion Powys.

Arferion da a mentrau newydd a welwyd:

- Ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy ddigwyddiad her yr ACRF. Dangosai hyn dystiolaeth glir i ymrwymiad y cyngor i ymgysylltu â'i bartneriaid a'i rhanddeiliaid er mwyn gwella ei wasanaethau, ac ymrwymiad ei bartneriaid i wella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu yn y sir.
- Menter gymdeithasol lwyddiannus yw Canhwyllau'r Bannau ar gyfer pobl ag anabledd dysgu. Daeth hwn yn gwmni cyfyngedig, yn gwerthu amrywiaeth o gynnyrch o safon ar draws Ewrop, ac mae'n cynnig lleoliadau gwaith gwerthfawr.

Meysydd i AGGCC edrych arnynt eto yn y dyfodol:

- Newidiadau mewn arweinyddiaeth wrth i gyfarwyddwr a phennaeth gwasanaeth newydd gael eu penodi a sut y bydd y newidiadau hyn yn cynnal ac yn datblygu gwasanaethau.
- Cynnydd y datblygiadau hynny mewn ailalluogi a'r pwynt mynediad sengl, y mae'r cyngor yn ystyried eu bod yn allweddol.
- Cynnydd mewn gweithio mewn partneriaeth gydag iechyd a'r trydydd Sector, a gweithio ar y cyd gyda Cheredigion.
- Datblygu trefniadau contractio a chomisiynu.

Perfformiad:

Siapio gwasanaethau

Mae uwch reolwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol wedi gweithio gydag aelodau etholedig a phartneriaid i osod cyfeiriad cliriach ar gyfer gwella a datblygu gwasanaethau. Maent wedi ymgysylltu â'r staff a rhanddeiliaid eraill i gyflawni hyn. Ceir cydnabyddiaeth fod angen cryfhau'r comisiynu a'r contractio ymhellach ac y bydd cyflawni holl amcanion y cynllun busnes yn gosod straen ar adnoddau a gallu.

Mae pobl yn dechrau elwa o'r gweithio gwell mewn partneriaeth gydag iechyd, drwy waith mwy integredig. Mae tîm ailalluogi Ystradgynlais a chynllunio prosiect Llanfair-ym-Muallt, lle y dylai defnyddwyr gwasanaeth dderbyn gwasanaethau integredig, yn esiamplau da.

Mae pobl yn derbyn gwasanaethau gwell drwy drefniadau comisiynu gwell. Mae'r system froceriaeth a gyflwynwyd yn ddiweddar ar gyfer pecynnau gofal cartref yn golygu bod darparwyr gwasanaethau yn gliriach ynghylch eu cyfrifoldebau ac y gellir eu monitro'n fwy effeithiol. Fodd bynnag, mae gallu'r cyngor i barhau i fonitro ansawdd y gwasanaethau a gomisiynwyd a'i allu i sicrhau bod y gwasanaethau'n ateb yr anghenion, yr aseswyd eu bod gan bobl, yn dal i fod yn her, a bydd angen mynd i'r afael â phroblem y gallu o fewn y tîm monitro contractau. Penodiad dros dro yw swydd y rheolwr comisiynu o hyd, ac mae swyddi gweigion yn dal i fod yn y tîm contractio a chomisiynu, ac mae ymgynghorwyr yn parhau i weithio ar gaffael. Mae angen recriwtio staff parhaol i'r swyddi gweigion er mwyn gwella a sefydlogi'r tîm comisiynu. Mae'r cyngor yn ystyried strwythur newydd ar y cyd gyda Cheredigion. Os cytunir ar hwn, bydd angen i'r ddau gyngor reoli'r newid yn effeithiol ac yn gyflym er mwyn sicrhau comisiynu cadarn.

Meysydd lle y cafwyd cynnydd

- Comisiynu a chontractio. Er bod hwn yn dal yn faes i'w ddatblygu, mae cynnydd sylweddol wedi ei wneud.
- Cydweithio gydag iechyd, a
- Mynediad at wasanaethau o fewn Sir Faesyfed.

Blaenoriaethau ar gyfer gwella

- Dylid datblygu cytundeb fframwaith gyda darparwyr gwasanaethau drwy broses dendro.
- Mae peilot y ganolfan gyfathrebu bellach wedi ei gwblhau, ac mae angen penderfynu'n awr a yw hwn i gael ei ledaenu ar draws y sir.
- Dylid mynd ati i ddatblygu'r gwasanaeth ailalluogi ledled y sir yn llwyddiannus. Bydd cefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol yn hollbwysig.
- Dylai'r cyngor fynd i'r afael â'r problemau gallu o fewn y tîm contractau a chomisiynu.
- Mae'r gwaith ar strategaeth gomisiynu ar y cyd ar gyfer pobl hŷn yn hanfodol, fel y mae datblygu strategaethau comisiynu effeithiol ar draws pob maes gwasanaeth.
- Dylid symud ymlaen i ddatblygu gwasanaethau i bobl iau ag anabledd corfforol ac ar gyfer pobl hŷn â dementia. Dylai'r cyngor sicrhau bod ganddo ddigon o allu i symud y meysydd gwasanaeth hyn yn eu blaen.

Cael cymorth

Roedd adroddiad 2011 AGGCC yn gofyn am welliant ymhob maes i gael cymorth i bobl sydd angen cefnogaeth. Ymatebodd y cyngor a gall pobl yn awr gael mynediad at wasanaethau, cyngor a chefnogaeth ar draws y sir yn fwy effeithiol. Fodd bynnag, mae'r trefniadau'n amrywio gyda nifer o bwyntiau cyswllt, o ganolfan gyfathrebu beilot i system swyddog ar ddyletswydd a chyswllt â gwasanaethau unigol. Er bod yna gynlluniau i ledaenu model y ganolfan gyfathrebu ar draws ardal y cyngor, bydd gweithio effeithiol yn dibynnu ar staff gwybodus a medrus, a all gynnig gwasanaeth ledled y sir. Bydd ar y cyngor eisiau ei fodloni ei hun fod gwybodaeth a llwybrau mynediad wedi cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y gwasanaeth ac wedi gwella'r canlyniadau i'r bobl sy'n defnyddio'r gofal a'r gefnogaeth.

Roedd y cyngor yn cydnabod bod ar bobl angen staff gwaith cymdeithasol a therapi galwedigaethol medrus i gynnal asesiad, cynllunio gofal ac adolygu. Er mwyn cyflawni hyn, cychwynnodd pennaeth dros dro'r gwasanaeth agenda gwelliant cyflym, gyda gweithdai a hyfforddiant i staff. Darparwyd cefnogaeth ychwanegol gan y rheolwyr. Mae system sicrhau ansawdd wedi ei sefydlu. Dangosodd dadansoddiad AGGCC o'r sampl o ffeiliau achos fod y sylw a roddwyd i wella sgiliau a symleiddio'r cofnodi wedi bod yn fuddiol i'r bobl sydd angen y gwasanaethau. Cadarnhaodd defnyddwyr gwasanaethau, y siaradwyd â hwy, fod eu gofal wedi gwella o ganlyniad. Lle mae anghysondebau'n parhau, mae gan reolwyr newydd y gwaith achos swyddogaeth glir i wella ymarfer gyda staff unigol.

Ystyriai'r rhan fwyaf o'r bobl, oedd yn derbyn gwasanaethau, fod lefel dda o gysylltiad wedi ei chynnal gan eu gweithiwr cymdeithasol neu eu therapydd galwedigaethol yn y cyfnod cychwynnol, a bod yr holl asesiadau a chynlluniau wedi cael eu trafod a'u cytuno gyda hwy. Teimlent eu bod yn cymryd rhan ac yr ymgynghorid â hwy yn ystod y broses. Disgrifiai'r rhan fwyaf o'r defnyddwyr gwasanaeth a'r gofalwyr, y siaradwyd â hwy, eu bod yn hapus gyda chanlyniadau'r gefnogaeth a'r gwasanaethau. Fodd bynnag, mae'r cyngor yn dal i edrych am gydbwysedd rhwng gostwng beichiau achosion mawr eu gweithwyr a chyfarfod ag anghenion defnyddwyr y gwasanaethau, nad ydynt yn hoffi cael eu 'cau i adolygiad'. Mae'r cydbwysedd hwn yn dal i fod angen sylw.

Meysydd lle y cafwyd cynnydd

- Cynnwys pobl wrth asesu eu hanghenion ac wedyn, wrth lunio eu cynllun gofal;
- Caiff gwybodaeth am atgyfeirio a chysylltiadau ei chofnodi'n glir a chafwyd gwelliannau amlwg o ran cysondeb;
- Mae cynlluniau gofal pobl yn amlwg yn deillio o'r asesiadau, roedd pobl wedi eu cynnwys yn y broses o gynllunio gofal, a cheid tystiolaeth o gynllunio unigolyn ganolog; a
- Gwnaed gwelliannau clir mewn asesu a sicrhau addasiadau i bobl.

Blaenoriaethau ar gyfer gwella

- Bydd angen i'r cyngor sicrhau bod y staff, sy'n seiliedig yn y ganolfan gyfathrebu, yn ddigon gwybodus a medrus i gynnig gwasanaeth ledled y sir i bobl sy'n dymuno cael mynediad at wasanaeth;
- Mae angen ymroi i gofnodi cymhwyster unigolyn i dderbyn gwasanaeth a'i gofnodi'n gyson;

- Mae angen gwell perfformiad wrth adolygu anghenion unigolyn;
- Mae angen gwell perfformiad wrth gynnig ac wrth gofnodi asesiadau gofalwyr;
- Mae angen cysondeb o ran cynnal a chofnodi asesiadau o fewn y targed o 28 diwrnod; a
- Dylid gwella'r modd y cofnodir ymyriad diogelu oedolyn.

Ystod ac Ansawdd y Gwasanaethau

Yn ne'r sir mae pobl yn elwa o ystod o ddatblygiadau gwasanaeth newydd, sydd wedi arwain at well amrywiaeth o wasanaethau. Er bod gwasanaethau sylfaenol ar gael ar draws y sir, mae peth annhegwch yn parhau yn y gwasanaethau a ddarperir.

Mae canolbwyntio ar wasanaethau integredig, gan ddefnyddio modelau "ailalluogi" a "ward rithiol", wedi gwella'r gefnogaeth i bobl yn eu cartrefi eu hunain, gan eu galluogi i barhau'n annibynnol. Mae'r gwasanaeth ailalluogi'n canolbwyntio ar gytuno ar nodau cyraeddadwy a realistig i ddefnyddwyr gwasanaeth. Nid yw'r lefel yma o wasanaeth ar gael i bawb a allai elwa oddi wrtho. Mae'r diffyg staff iechyd sydd ar gael yng ngweddill y sir wedi llesteirio datblygu gwasanaethau integredig a mynediad at ailalluogi, ac mae'r cyngor wedi cael anhawster i recriwtio staff priodol i'w dimau ailalluogi yng ngogledd y sir. Mae hon yn her i'r cyngor, gan yr ystyrir bod gweithredu ailalluogi integredig yn hanfodol o ran cyfeiriad gwasanaethau cymdeithasol i oedolion o fewn y sir yn y dyfodol.

Defnyddir gwahanol dermau i ddisgrifio'r gwasanaeth megis ailalluogi, galluogi, gofal canolraddol, gwllâu ymadfer etc. Byddai unrhyw ddatblygiadau yn elwa o eglurder a chysondeb o safbwynt terminoleg, fel bod yr holl randdeiliaid yn deall union natur y gwasanaeth sy'n cael ei gynllunio.

Ceir enghreifftiau da iawn o ddatblygu mentrau cymdeithasol. Mae gwasanaethau a chyfleoedd ar gael yn y trydydd sector i bobl fregus iawn ag anableddau dysgu neu broblemau iechyd meddwl. Mae Canhwyllau'r Bannau yn fenter gymdeithasol unigryw, a ddaeth i fod o ganlyniad i adolygiad y cyngor o'r gwasanaethau dydd, yr oedd yn eu darparu ar gyfer pobl ag anabledd dysgu. Mae'n darparu lleoliadau gwaith gwerthfawr i bobl mewn sefyllfa waith go iawn, ac mae wedi dod, gyda chefnogaeth y cyngor, yn gwmni cyfyngedig sy'n gwerthu amrediad o gynnyrch o safon ar draws Ewrop. Rhoddodd y llwyddiant hwn hyder i'r gweithlu, sgiliau a phrofiad o fod yn rhan o fenter o werth.

Mae'r cyngor wedi sefydlu partneriaethau gydag amrywiaeth o ddarparwyr gwasanaethau, sy'n darparu seibiant a gwyliau byrion i ofalwyr yn eu cartrefi eu hunain, a gofal cartref yn fwy cyffredinol. Maent yn cyfrannau at wasanaeth ymateb brys yn y cartref ym Mhowys, menter iechyd yn y gogledd, sy'n ceisio cynorthwyo pobl i osgoi mynd i'r ysbyty drwy eu helpu i fyw gartref. Mae system froceriaeth y cyngor yn gosod peth her i ddarparwyr a phartneriaid ac mae'r pryderon yn parhau o ran y cydbwysedd rhwng sefydlu pecyn brys ac ansawdd y pecyn hwnnw.

Ceir fforwm sector gwirfoddol, sy'n cael ei gadeirio gan Gymdeithas Cyrff Gwirfoddol Powys (PAVO). Mae cyrff sy'n bartneriaid yn meddwl y dylai'r cyngor symud ymlaen i wella'r ffordd y caiff taliadau uniongyrchol eu hybu a nodi anghenion gofalwyr.

Meysydd lle y cafwyd cynnydd

- Bu datblygiadau cadarnhaol o gwmpas model y “ward rithiol”; ac
- Mae'r gwasanaeth ailalluogi yn canolbwyntio ar gytuno ar nodau cyraeddadwy a realistig i ddefnyddwyr ac mae ei gysylltiadau da gyda'r gwasanaeth gofal cartref yn sicrhau bod cefnogaeth dda, barhaus, yn ei lle os bydd angen.

Blaenoriaethau ar gyfer gwella

- Dylid rhoi blaenoriaeth i atgyfeiriadau pobl sydd eisoes yn adnabyddus i'r adran, er mwyn sicrhau ymateb mwy amserol i newidiadau yn y pecynnau gofal a chefnogaeth;
- Gwaith pellach i ymgysylltu a rhoi diweddariad i bob elfen o'r gweithlu ynglŷn â'r cynlluniau i wella gwasanaethau;
- Mae angen mynd i'r afael â gallu a chynladwyedd parhaus y tîm ailalluogi yn Ystradgynlais a'r hyn y mae'r cyngor yn ei ystyried sy'n esiampl o arfer da. Gan fod y cyngor yn bwriadau lledaenu'r model hwn ar draws y siroedd eraill, mae hyn yn ymddangos yn flaenoriaeth;
- Mae angen sefydlu gwaith pellach i annog pobl yn effeithiol i fanteisio ar y gwasanaeth asesu a chefnogi gofalwyr. Efallai y byddai maes mandadol, i'w gwblhau gan atebwyr galwadau, yn gymorth i hyrwyddo asesiadau gofalwyr; ac
- Mae angen i'r cyngor symud ymlaen gydag ehangu'r dulliau y gall pobl gael mynediad a gwneud atgyfeiriadau drwy bwynt mynediad sengl.

Yr effaith ar fywydau pobl

Mae'r Cyngor wedi cael peth llwyddiant o ran hyrwyddo annibyniaeth a chynhwysiad cymdeithasol. Gwnaed gwelliannau clir gyda golwg ar brydlondeb asesiadau a darparu addasiadau i bobl. Mae offer monitro cliriach yn ei gwneud yn bosibl monitro prydlondeb a chynnydd gwaith. Mae'r cyfathrebu rhwng y gwasanaeth therapi galwedigaethol a'r tîm addasiadau wedi gwella, ac mae hyn yn amlwg yn gwella'r canlyniadau i bobl.

Nid oedd asesiadau gofalwyr yn cael eu cynnig yn gyson na'u cofnodi fel rhai a gynigiwyd, er bod asesiadau unedig yn awgrymu y gofynnid am farn perthnasau a gofalwyr yn y modd priodol. Er mwyn cynyddu'r nifer sy'n manteisio, mae corff gofalwyr arbenigol yn y trydydd sector wedi ymgymryd ag asesiadau gofalwyr ar ran y cyngor dros y 12 mis diwethaf. Adroddwyd am rai problemau, gyda chanlyniadau'n cael eu cytuno heb i reolwyr gofal wybod. Mae angen i'r cyngor werthuso effeithiolrwydd ei drefniadau.

Mae'r cyngor yn adrodd bod hyrwyddwr gofalwyr ym mhob tîm gwaith cymdeithasol ar draws y sir. Fodd bynnag, mae angen o hyd am gyfathrebu gwell a gwaith mwy cyson gyda chyrff gofalwyr ledled y sir. Maent yn adrodd am anghysondebau mewn dull, sy'n golygu eu bod yn ansicr pa fath o ymateb a gânt hwy neu ofalwyr. Roedd cyrff gofalwyr yn cydnabod eu bod yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd amlddisgyblaethol a bod y broses asesu unedig a'r cynlluniau gofal yn cael eu cyflenwi pan fo hynny'n briodol. Mae yna fwrdd partneriaethau gofalwyr, sydd wedi cael ei gadeirio gan ofalwr dros yr ychydig fisoedd diwethaf.

Mae taliadau uniongyrchol ar gael i gefnogi gofalwyr, lle y cawsant eu hasesu, a defnyddiwyd y rhain yn effeithiol i gynnal defnyddwyr gwasanaeth unigol. Fe'u defnyddiwyd i ddarparu seibiant hyblyg. Er hynny, mae'r cyngor yn cydnabod y gellid cynyddu ymhellach y nifer sy'n manteisio ar daliadau uniongyrchol a rhoddwyd y dasg hon i'r asiantaeth gefnogi, sydd newydd ei phenodi.

Rhoddodd y cyngor flaenoriaeth i ddiogelu oedolion. Lle y gwnaed atgyfeiriad amddiffyn oedolyn, nododd yr arolygwyr fod dwy ran o dair o'r sampl a archwiliwyd yn dangos cryfderau mewn cofnodi, er yr ystyrid bod angen gwelliant mewn un traean. Roedd cofnodion anghyson am ddilyniant ac am gau achosion yn amlwg yn y rhain, gydag ond ychydig o dystiolaeth fod cynlluniau amddiffyn wedi cael eu cytuno a'u sefydlu. Roedd diffyg eglurder yn rhai ffeiliau achos ynghylch pwy arweiniodd yr ymchwiliad amddiffyn oedolyn. Fodd bynnag, cynullwyd trafodaethau a chyfarfodydd strategaeth, gyda chofnodion clir yn cael eu cadw, ond nid bob tro yn y cyfnod o amser disgwylidig o ddiwrnod neu ddau. Cynhaliwyd Cyfarfodydd Strategaeth o fewn pump i ddeng niwrnod i'r amser y gwnaed yr atgyfeiriad. Cafodd anghenion, dymuniadau a gallu'r dioddefwyr honedig i wneud penderfyniadau eu cymryd i ystyriaeth. Cofnododd y cyngor fod y dioddefwyr honedig wedi eu hamddiffyn drwy gydol y broses. Mewn rhai achosion rhoddwyd adborth i'r unigolyn ond nid bob tro.

Mae'r gwasanaeth therapi galwedigaethol yn sicrhau canlyniadau da i unigolion. Fe'i disgrifir fel gwasanaeth prydlon, sydd wedi ei drefnu'n dda. Mae'r cysylltiadau gwell gyda'r tîm addasiadau wedi sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud i gynorthwyo pobl mewn ffordd fwy effeithiol o fewn y cyfnodau amser a bennwyd. Roedd defnyddwyr yn gwerthfawrogi bod modd iddynt gysylltu ag un gweithiwr penodol.

Meysydd lle y cafwyd cynnydd

- Cafodd taliadau uniongyrchol eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi unigolion ac maent ar gael i gynorthwyo gofalwyr lle y cawsant eu hasesu;
- Llwyddwyd i sicrhau canlyniadau gwell i bobl sydd angen gofal a chymorth drwy ddiwygio'r ffurflenni asesu unedig (UAP); ac
- Mae'r gwasanaeth therapi galwedigaethol yn sicrhau canlyniadau da i unigolion.

Blaenoriaethau ar gyfer gwella

- Mae angen i'r cyngor yn awr werthuso effeithiolrwydd ei drefniant partneriaeth gyda Gofalwyr Powys a chysondeb ei ddull wrth gyfathrebu ac ymdrin â chyrrff gofalwyr ledled y sir; ac
- Mae gwelliannau yn dal yn angenrheidiol mewn cofnodi atgyfeiriadau amddiffyn oedolion, ymchwiliadau a chau achosion.

Gallu:

Darparu gwasanaethau cymdeithasol

Mae newidiadau sylweddol wedi digwydd mewn darparu gwasanaethau, sydd wedi cael eu cefnogi gan ddiwrnodiau datblygu gwasanaethau. Nid yw swydd ganolog pennaeth gwasanaethau oedolion wedi cael ei llenwi'n barhaol eto ac mae penderfyniad ynghylch swydd cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol eto i gael ei gyhoeddi'n ffurfiol. Dylai'r materion hyn gael eu datrys er mwyn darparu arweinyddiaeth a rhoi hyder i'r staff y bydd y daith o wneud gwelliannau yn parhau.

Er gwaethaf rhoi sylw i geisio lleihau beichiau achosion trymion a gwella'r gefnogaeth gan reolwyr, mae'r lefelau uwch o salwch staff, ynghyd â'r penderfyniad i beidio â llenwi swyddi gweigion mewn gwaith cymdeithasol neu therapi galwedigaethol ar hyn o bryd, yn parhau i effeithio ar y gallu ac ar y gwasanaethau a ddarperir. Nid oes staff wrth gefn i lenwi swyddi yn ystod absenoldeb salwch hir. Un o effeithiau hyn fu methiant i gyrraedd y targedau disgwylidig o ran adolygu anghenion gofal a chymorth pobl. Cafodd effaith y ffurflen asesiad unedig newydd ei chroesawu gan y staff, ac mae gwelliannau yn amlwg wedi eu gwneud mewn cofnodi anghenion a chanlyniadau pobl. Mae gwaith diogelu'n dal i gael effaith ar allu'r timau gwaith cymdeithasol a'r rheolwyr. Mae'r tîm diogelu'n darparu cymorth a hyfforddiant da. Adroddwyd bod llawer o waith amddiffyn oedolion yn cael ei wneud ond bod achosion yn araf i gael eu cau'n derfynol.

Mae ymrwymiad y cyngor i gefnogi datblygiad staff wedi cael ei ddangos yn glir drwy ddatblygiad gyrfaedd nifer o unigolion. Mae cyfleoedd hyfforddiant da ar gael er y gall fod yn anodd mynd i'r rhain oherwydd problem gallu a llwyth gwaith, Mae gweithwyr cymdeithasol, sy'n dymuno bod yn weithwyr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy (AMHP), yn ymgymryd â hyfforddiant priodol a chysgodi, cyn ymgymryd â'r swyddogaeth. Fodd bynnag, nid oes goruchwyliaeth barhaus yn cael ei chynnal na hyfforddiant arbenigol yn cael ei ddarparu.

Mae'r staff yn ymwybodol bod tynhau'r meini prawf cymhwyster i gael mynediad at wasanaethau wedi arwain at welliannau ynghyd â newid mewn diwylliant. Mae ffordd newydd o feddwl wedi datblygu sy'n hyrwyddo annibyniaeth a symud i ffordd oddi wrth greu dibyniaeth. Mae'r staff yn deall bod angen newid diwylliant ac agwedd ymhellach a sefydlu dull cadarnhaol o ymarfer.

Meysydd lle y cafwyd cynnydd

- Cafodd effaith y ffurflen asesiad unedig newydd ei chroesawu gan y staff, ac mae gwelliannau yn amlwg wedi cael eu gwneud yn y gwaith o gofnodi anghenion a chanlyniadau pobl;
- Mae'r staff yn adrodd bod perfformiad wedi gwella'n amlwg, ym maes asesu, arferion gwaith a chanolbwyntio ar y defnyddiwr; a
- Theimlir bod y cynnydd yn y gwaith integredig gydag iechyd wedi gwneud gwahaniaeth enfawr mewn darparu gwasanaethau, gyda meddygon teulu yn meddu ar ddealltwriaeth lawer gwell o swyddogaeth gweithwyr cymdeithasol.

Blaenoriaethau ar gyfer gwella

- Dylai'r cyngor barhau i fynd i'r afael â lefelau salwch uchel y staff o fewn yr adran, ac adolygu'r penderfyniad i beidio â llenwi swyddi gweigion staff;
- Mae angen trefnu goruchwyliaeth barhaus ar gyfer anghenion AMHP ynghyd â darparu hyfforddiant arbenigol;
- Byddai rhoi mwy o adborth o'r llifoedd gwaith a'r gweithgorau i'r staff yn cael ei groesawu;
- Dylai'r Cyngor wneud gwaith pellach i sicrhau bod y staff yn medru gweld y cysylltiad rhwng cyfarfod â deg amcan flaenaf yr adran a'r gwasanaethau gwell sy'n cael eu darparu ar gyfer y defnyddwyr; a
- Dylid trefnu goruchwyliaeth ac arweiniad i staff unigol gan reolwyr, gan fod y budd a deimlodd y staff hynny y mae eu beichiau gwaith wedi cael eu hadolygu yn amlwg ac wedi arwain at ymateb mwy amserol a chyson i'r achosion hynny.

Gosod cyfeiriad

Mae'r staff yn cydnabod bod newidiadau mewn diwylliant ac agwedd a, thrwy hynny, mewn arferion gwaith wedi dechrau gwella ers gwneud y trefniant i rannu swyddogaeth cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol gyda Cheredigion a phenodi wedyn y pennaeth dros dro i wasanaethau oedolion. Mae'r newidiadau yma yn y diwylliant yn ganolog i gynnal unrhyw welliannau a wnaed. Mae cyfathrebu clir a chyson, ynghyd â gwell arweinyddiaeth, wedi arwain at ymgysylltiad gwell o ran y staff, er bod angen gwaith pellach. Mae'r tair sir yn dechrau cydweithio'n fwy effeithiol, er bod anghysondebau'n dal i'w gweld. Mae gwell cyfathrebu erbyn hyn rhwng yr uned perfformiad busnes a'r meysydd gwasanaeth, gyda data perfformiad yn cael ei ddarparu i bennaeth y gwasanaeth yn fisol.

Yn ddiweddar iawn, penderfynodd y cyngor recriwtio ar gyfer swydd barhaol cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol, gan ddwyn y trefniadau ar y cyd presennol gyda Cheredigion i ben. Mae hefyd wedi penderfynu ymestyn cytundeb pennaeth dros dro'r gwasanaethau i oedolion a hysbysebu'r swydd yn allanol yr un pryd. Mae'r penderfyniadau hyn wedi achosi peth pryder i'r staff ac i'r partneriaid, rhag ofn y bydd y swyddogion newydd a benodir yn newid cyfeiriad y daith neu'n llesteirio'r gwaith o gynnal y gwelliannau.

Mae angen i'r cyngor sicrhau o hyd fod yna ddigon o allu i ddatblygu a gwerthuso strategaethau comisiynu a monitro'r gwasanaethau a gomisiynwyd yn effeithiol i ddibenion ansawdd a chontractio. Mae hyn er mwyn symud ymlaen gyda gweithredu arweiniad comisiynu Llywodraeth Cymru.

Mae angen cydnabyddedig i swyddogaethau craffu'r cyngor fod yn fwy cadarn a heriol. Drwy'r trefniadau craffu, dylai'r cyngor ganfod a yw'r gwelliannau a gyflawnwyd eisoes wedi cael effaith gadarnhaol ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae angen cefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol hefyd i'w gwneud yn bosibl cynnal y gwelliannau a wnaed. Mae tensiynau gwleidyddol clir ynghylch cyflymdra a chost y gwelliannau gyda meysydd datblygu allweddol yn cael eu cwestiynu, megis y gwasanaeth ailalluogi a phwynt mynediad sengl.

Mae'r blaenoriaethau ar gyfer gwella, a'r goblygiadau o safbwynt adnoddau sy'n dilyn, angen eu hailgadarnhau unwaith y bydd y tensiynau hyn wedi cael eu datrys. Rhaid i'r pwyllgor craffu weithio'n effeithiol gydag arweinydd y portffolio a gyda gwasanaethau oedolion. Mae yna beryglon yn gysylltiedig â pheidio â chydabod y cynnydd a wnaed gan y staff hyd yma, a methu â chytuno ar gynllun gwella sy'n derbyn digon o gefnogaeth gyllidol, gorfforaethol a gwleidyddol. Mae'r angen i sefydlu'r ffaith y bydd y gwelliannau a gynlluniwyd yn sicrhau canlyniadau gwell i bobl yn eglur. Bydd peidio â gwneud hynny yn cael effaith ar y bobl sydd angen neu sy'n defnyddio'r gwasanaethau cymdeithasol.

Meysydd lle y cafwyd cynnydd

- Arweinyddiaeth a gwella diwylliant ac agwedd y staff;
- Cyfathrebu clir a chyson; mae'r staff ar bob lefel yn cymryd diddordeb llawnach; a
- Gwell cyfathrebu rhwng yr uned perfformiad busnes a'r meysydd gwasanaeth, gyda data perfformiad ar gael yn fisol.

Blaenoriaethau ar gyfer gwella

- Dylai'r cyngor sicrhau bod yna ddigon o allu i ddatblygu a gwerthuso strategaethau comisiynu, ac i fonitro'r gwasanaethau a gomisiynwyd yn effeithiol i ddibenion ansawdd a chontractio, er mwyn symud ymlaen gyda gweithredu arweiniad comisiynu llywodraeth Cymru;
- Mae angen mynd i'r afael â'r anghysondebau yn y gwasanaethau a ddarperir i bobl;
- Mae angen i'r cyngor ddarganfod, drwy eu trefniadau craffu, a yw'r gwelliannau a gyflwynwyd eisoes wedi cael effaith gadarnhaol ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau;
- Mae angen i'r cyngor sicrhau bod yr uned graffu'n cydweithio'n effeithiol gydag arweinydd y portffolio a gyda gwasanaethau oedolion; a
- Bydd yr angen am gefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol i'r cynllun gwella yn hanfodol er mwyn cynnal gwelliant a gwella'r canlyniadau i bobl Powys.